Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

# IV59 Nodiadau cyfarwyddyd ar gwblhau cais am drwydded fewnforio/awdurdodiad mewnforio ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid neu drwydded i fewnforio pathogen/cludydd anifeiliaid i Brydain Fawr

## Mai 2026

## Cynnwys


Adran 1: Manylion yr ymgeisydd ........ 2

Adran 2: Manylion y drwydded/awdurdodiad ........ 4

Adran 3: Manylion y llwyth ........ 4

Adran 4: Trwydded iechyd anifeiliaid i fewnforio pathogen/cludydd anifeiliaid ........ 6

Adran 5: Gwaredu gweddillion a gwastraff ........ 6

Adran 6: Datganiad ........ 6

Adran 7: Gwybodaeth ychwanegol ........ 6

**Sicrhewch:**

- eich bod yn darllen y Nodyn Gwybodaeth i Fewnforwyr priodol a geir yn: http://apha.defra.gov.uk/official-vets/Guidance/bip/iin/index.htm
- eich bod yn cwblhau'r ffurflen gais mewn **priflythrennau** neu ar ffurf teipysgrif
- eich bod yn caniatáu o leiaf 15 diwrnod gwaith i'r cais gael ei brosesu ac i'r drwydded/awdurdodiad gael ei r(h)oi
- bod ffurflen ar wahân yn cael ei defnyddio ar gyfer pob math o ddeunydd (naill ai cynnyrch anifail neu bathogen/cludydd anifeiliaid) rydych am ei fewnforio.

**Os hoffech fewnforio Pathogen Anifeiliaid Penodedig (fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(1) o'r Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig), defnyddiwch y Drwydded Gyffredinol berthnasol (IV69). Am ragor o wybodaeth gweler y canllawiau ar GOV.UK: https://www.gov.uk/guidance/bringing-specified-animal-pathogens-into-gb**

**Mae'n bwysig bod pob adran berthnasol o'r ffurflen gais yn cael ei chwblhau mor llawn â phosibl er mwyn sicrhau y caiff eich cais ei brosesu cyn gynted â phosibl. Bydd methu â darparu gwybodaeth bwysig yn achosi oedi.**

# Adran 1: Manylion yr ymgeisydd

Enw a chyfeiriad post llawn y cwmni neu'r unigolyn sy'n mewnforio.

1. Enw a Chyfeiriad – sicrhewch fod pob adran wedi'i chwblhau'n llawn gan gynnwys y cyfeiriad e-bost er mwyn i ni allu cysylltu â chi os bydd angen i ni wneud hynny.

2. Mae angen i ni wybod i ble yn union y bydd y samplau yn mynd (y safle pen y daith) er mwyn i ni allu asesu lefel y ddarpariaeth gyfyngu sydd ar gael. Os bydd gennym unrhyw ymholiadau, byddwn yn cysylltu â'r sawl sy'n gofalu am y safle. Rhaid anfon y llwyth yn uniongyrchol i'r defnyddiwr neu'r labordy cymeradwy, fel y bo'n briodol, yn y cyfeiriad hwn.

3. Mae angen manylion cyswllt yr Asiant arnom rhag ofn y bydd unrhyw broblemau yn y man glanio ym Mhrydain Fawr. Mae'n bosibl y byddwn yn gallu datrys y broblem drwy gysylltu â'r Asiant.

4. Wrth fewnforio unrhyw ddeunydd anifail (cynnyrch sy'n dod o anifail, sylwedd neu gludydd) sy'n cynnwys micro-organeddau biolegol actif, gan gynnwys y rhai a allai fod wedi'u halogi â phathogenau, byddwn yn edrych ar lefel gyfyngu'r labordy a'r safonau y mae'r labordy yn gweithredu iddynt. Mae angen i ni wneud hyn er mwyn asesu gallu'r labordy i bennu mesurau cyfyngu a rheoli priodol gan gynnwys mesurau i leihau'r risg i iechyd anifeiliaid ac iechyd pobl os bydd organeddau yn dianc o labordai. Gallai hyn gynnwys yr ystyriaethau canlynol:

- mae'r labordy wedi'i thrwyddedu i drin a storio pathogenau a gwmpesir gan Orchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig 2008 (fel y'i diwygiwyd)

- lefel gyfyngu'r labordy yn seiliedig ar restr gymeradwy'r Pwyllgor Cynghori ar Bathogenau Peryglus o gyfryngau biolegol.

5. At hynny, mae'r defnydd o arferion labordy da er mwyn osgoi lledaenu clefydau y gellir eu trosglwyddo i bobl neu anifeiliaid wrth drin y deunyddiau yn cael ei ystyried fel rhan o'r asesiad risg, gan gynnwys y canlynol:

- Dilyn canllawiau perthnasol y Pwyllgor Cynghori ar Bathogenau Peryglus a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ar gyfer arferion da
- Dilyn y Nodiadau cyfarwyddyd ar y gofynion cyfyngu o dan y Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (sydd ar gael yn: http://archive.defra.gov.uk/foodfarm/farmanimal/diseases/pathogens/index.htm)
- Defnyddio systemau sicrhau ansawdd e.e. achrediad i safonau perthnasol y Sefydliad Safonau Rhyngwladol (ISO) megis ISO17025 a/neu egwyddor Ymarfer Labordy Da

6. Dylai mewnforwyr/defnyddwyr sgil-gynhyrchion anifeiliaid sicrhau eu bod yn cael eu trin, eu storio, eu labelu, eu cludo a'u defnyddio yn unol â gofynion Rheoliad (CE) Rhif 1069/2009 a gymathwyd a Rheoliad (UE) Rhif 142/2011 a gymathwyd. Rhaid bod safleoedd wedi'u cofrestru ar gyfer defnyddio sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan APHA.

7. Dylai fod gan bob labordy asesiad risg ar gyfer unrhyw ddeunydd sy'n cael ei drin ganddynt. Dylai pob aelod o staff sy'n gweithio yn y cyfleuster fod yn ymwybodol o'i gynnwys ac efallai y byddwn yn gofyn am gael gweld yr asesiad risg mewn achosion eithriadol.

8. Gall cyswllt uniongyrchol â da byw, ceffylau a dofednod beri risg y caiff yr anifeiliaid eu heintio â chlefyd neu y cânt eu hamlygu i beryglon eraill a all fod yn y deunydd. Rhaid asesu'n ofalus y tebygolrwydd y daw'r deunydd i gysylltiad ag anifeiliaid eraill, hyd yn oed os yw'n annhebygol o arwain at drosglwyddo clefydau, ac mae'n bwysig bod unrhyw amlygiad posibl yn cael ei ddatgan. Ni chaiff cyfyngiadau afresymol eu gosod ar unigolion e.e. nid yw pathogenau sydd ond yn gallu cael eu lledaenu gan fectorau sy'n bryfed yn debygol o arwain at gyfyngiadau ar gyswllt corfforol â rhywogaethau sy'n agored iddynt.

9. Gall cyswllt anuniongyrchol rhwng deunydd sy'n cael ei gludo ar ddillad, cyfarpar, dwylo ac ati (ffomidau) â da byw fferm, ceffylau a dofednod hefyd beri risg o drosglwyddo clefydau. Gall rhai pathogenau/clefydau gael eu trosglwyddo'n hawdd gan bobl a gall cyswllt ag unrhyw dda byw gynyddu'r risg y bydd clefydau yn lledaenu i'r boblogaeth anifeiliaid leol. Efallai na fydd gwaith glanhau arferol a newid dillad yn ddigon i atal rhai organeddau pathogenig rhag cael eu trosglwyddo.

10. Mae angen i ni wybod pa ddefnydd y bwriedir ei wneud o'r deunydd nid dim ond fel rhan o'n hasesiad risg ond hefyd er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi'r math cywir o drwydded/awdurdodiad.

11. Cwblhewch fanylion y profion, ymchwil ac ati sy'n cael eu cynnal, gan roi unrhyw wybodaeth ychwanegol ar ddalen ar wahân.

12. Mae angen i ni wybod p'un a fwriedir i'r cynnyrch gael ei ddefnyddio at ddibenion masnachol ai peidio gan y bydd hyn yn pennu pa fath o drwydded/awdurdodiad y dylid ei r(h)oi a pha gyngor y dylid ei gynnig.

13. Mae'r amodau mewnforio ar gyfer y rhan fwyaf o gynhyrchion anifeiliaid wedi'u gosod yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd. Nid oes amodau mewnforio ar waith bob amser i ganiatáu i gynhyrchion o wledydd penodol gael eu mewnforio ac, felly, efallai na fydd rhai mewnforion masnachol i'r UE/Prydain Fawr yn bosibl.

# Adran 2: Manylion y drwydded/awdurdodiad

1. Caiff ceisiadau i fewnforio pathogenau anifeiliaid eu prosesu gan dîm gwahanol i'r rhai ar gyfer deunydd nad yw'n bathogenig. Bydd cwblhau'r adrannau hyn yn gywir yn ein helpu i sicrhau bod eich cais yn cael ei anfon i'r Adran briodol.

2. Mae'n bosibl na fydd y ffaith bod trwydded debyg/awdurdodiad tebyg wedi'i r(h)oi yn flaenorol bob amser yn golygu y rhoddir trwydded/awdurdodiad arall yn awtomatig. Mae angen asesu sawl mater a gall yr amgylchiadau ers i'r drwydded flaenorol/awdurdodiad blaenorol gael ei r(h)oi newid. Er enghraifft, gall statws clefyd y wlad tarddiad neu ein profiad o'r risg a berir gan ddeunydd penodol newid, sy'n awgrymu bod yn rhaid newid lefel y rheolaethau a ddefnyddir.

3. Mae cyfnod dilysrwydd y drwydded/awdurdodiad yn amrywio yn dibynnu ar y math o ddeunydd a fewnforir ac anghenion y mewnforiwr. Nid ydym yn gwarantu y rhoddir trwydded/awdurdodiad â chyfnod dilysrwydd hir ond byddwn yn ceisio darparu ar gyfer ceisiadau penodol.

# Adran 3: Manylion y llwyth

1. Cwblhewch yr adran hon yn llawn.

2. Er mwyn cwblhau ein hasesiad risg, rhaid i ni wybod gwlad tarddiad y deunydd er mwyn i ni allu cadarnhau statws clefyd y wlad sy'n allforio, amodau mewnforio perthnasol ac ati (defnyddiwch ddalen ar wahân os oes angen).

3. Mae'n bosibl i ddeunydd gael ei halogi wrth gael ei gludo. Felly, mae angen manylion llawn unrhyw wledydd perthnasol y bydd y deunydd yn mynd drwyddynt wrth gael ei gludo i'r safle pen y daith (defnyddiwch ddalen ar wahân os oes angen).

4. Fel rhan o'n hasesiad risg mae angen i ni wybod y rhywogaeth anifail y mae'r cynnyrch yn dod ohoni er mwyn i ni allu asesu statws clefyd poblogaeth yr anifail penodol yn y wlad sy'n allforio a'r risg bosibl sy'n gysylltiedig â mewnforio deunydd/cynhyrchion sy'n deillio o'r rhywogaeth anifail benodol honno.

5. Gall rhai cynhyrchion beri risg uwch i iechyd anifeiliaid neu gall fod ganddynt ofynion mewnforio penodol. Hefyd, gall y math o drwydded/awdurdodiad sydd ei

(h)angen amrywio. Mae angen i ni wybod y wlad sy'n allforio ar gyfer pob math o ddeunydd e.e. llaeth o wlad A, wyau o wlad B.

6. Os oes enw penodol ar y cynnyrch, gallwn gadarnhau'r union gynnwys ac mae'n bosibl ein bod wedi cwblhau asesiad risg ar gyfer y deunydd yn flaenorol, a fydd yn cyflymu'r broses.

7. Mae'n arbennig o bwysig rhoi manylion llawn yr holl gynhyrchion anifeiliaid neu bathogenau sy'n rhan o'r llwyth. Os mai sgil-gynnyrch anifail ydyw, nodwch y Categori (1, 2 neu 3) yn unol â gofynion Erthyglau 8, 9 neu 10 o Reoliad (CE) Rhif 1069/2009 a gymathwyd.

8. Gall y rheolau ynglŷn â glanio cynhyrchion ym Mhrydain Fawr amrywio ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r porthladd/maes awyr glanio gael ei gymeradwyo ar gyfer y math o ddeunydd dan sylw. Os caiff ei lanio yn y maes awyr neu borthladd anghywir, gellid peri oedi i'r llwyth neu gallai gael ei ddinistrio hyd yn oed.

9. Ceir rheolau penodol ynglŷn â chludo nwyddau a dylai mewnforwyr gysylltu â'r cludwr er mwyn sicrhau bod y deunydd pecynnu a'r labeli cywir yn cael eu defnyddio.

10. Mae angen i ni wybod y dyddiad mewnforio gan y bydd hyn yn ein helpu i bennu cyfnod dilysrwydd y drwydded/awdurdodiad.

11. +26, 27 ac 28. Mae'n bwysig ein bod yn gwybod y symiau o ddeunydd a fewnforir fel rhan o'n hasesiad risg. Er enghraifft, mae symiau bach iawn sydd wedi'u selio mewn tiwbiau capilari yn peri llawer llai o risg. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth hon i gyfyngu ar gyfanswm y deunydd fesul llwyth.

12. Bydd profi am bathogenau cyn anfon llwyth yn helpu i leihau'r angen am ragofalon ychwanegol yn y labordy pen y daith. Mae'n bwysig bod manylion llawn yn cael eu rhoi gan gynnwys enw a statws (Dynodiad cenedlaethol, dynodiad yr OIE neu Sefydliad Iechyd y Byd ac ati) y labordy sy'n cynnal y profion.

13. Gall trin y sampl ymlaen llaw leihau'r risg o fewnforio deunydd a all beri risg ac mae'n bosibl y bydd yn ein helpu i bennu'r math o gyfleuster (e.e. cyfyngu) y gellir anfon y deunydd iddo. Mae'n bwysig rhoi manylion llawn e.e. amser a thymheredd ar gyfer triniaeth gwres a chyfeintiau a chrynoadau cadwolion.

14. Ystyrir bod triniaeth gwres ar 56°C am 30 munud yn dinistrio feirysau penodol ac y gall ddileu'r angen i gyfyngu yn y safle pen y daith.

15. Mae bob amser risg o groeshalogi mewn labordy sy'n trin amrywiaeth eang o bathogenau a chaiff hyn ei ystyried wrth gynnal yr asesiad risg.

16. Bydd tarddiad y deunydd yn effeithio ar yr angen am ragofalon ychwanegol. Fel arfer, bydd risg is yn gysylltiedig â deunydd o labordy o gymharu â deunydd o

anifeiliaid gwyllt. Os bydd gwlad wedi'i chymeradwyo i allforio deunydd masnachol tebyg i'r UE ystyrir bod y risg yn llawer is.

17. Fel arfer, ni chaiff deunydd o'r anifeiliaid yr amheuir eu bod wedi'u heintio ag unrhyw glefyd hysbysadwy y mae'r anifeiliaid yn agored iddo yn ôl deddfwriaeth Ewropeaidd neu ddeddfwriaeth Genedlaethol arall ynglŷn ag Iechyd Anifeiliaid ei drwyddedu ac eithrio i labordy sydd wedi'i gymeradwyo o dan y Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig.

18. Bydd cyfran y cynhwysion sy'n dod o anifeiliaid yn ein helpu i nodi'r risg a allai fod yn gysylltiedig â nhw. Rhaid darparu dadansoddiad cyflawn o'r **holl** gynhwysion, yn arbennig mewn perthynas ag unrhyw ddeunydd sy'n dod o anifeiliaid (os oes angen rhestrwch y rhain yn Adran VI neu ar ddalen o bapur ar wahân).

# Adran 4: Trwydded iechyd anifeiliaid i fewnforio pathogen/cludydd anifeiliaid

1. - 39. Mae angen y wybodaeth hon yn benodol ar gyfer ceisiadau am Drwydded Pathogenau ac mae'n helpu i asesu'r risg y bydd y pathogen yn dianc ac yn effeithio ar anifeiliaid domestig neu wyllt ger y labordy.

# Adran 5: Gwaredu gweddillion a gwastraff

1. - 43. Nodwch sut a ble y caiff gweddillion y cynnyrch anifail, y pathogen neu'r cludydd yn dilyn profion ac unrhyw ddeunydd pecynnu eu dinistrio. Yn achos llosgyddion, rhowch yr enw a'r cyfeiriad llawn.

**Noder:** rhaid gwaredu deunydd yn unol â deddfwriaeth Amgylcheddol a deddfwriaeth ynglŷn â Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid.

# Adran 6: Datganiad

1. Ar ôl darllen y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn ticiwch y blwch priodol a llofnodwch y datganiad(au) priodol. Yna, gweler isod am fanylion am ble i anfon y ffurflen gais wedi'i chwblhau.

**Noder:** os bydd y cais wedi'i gwblhau'n electronig ac nad yw wedi'i lofnodi, ni fyddwn yn gallu ei brosesu.

# Adran 7: Gwybodaeth ychwanegol

1. Defnyddiwch yr adran hon ar gyfer unrhyw wybodaeth ychwanegol ac atodwch ddalenni ychwanegol os oes angen.
2. **Dylid anfon y ffurflen gais wedi'i chwblhau i un o'r cyfeiriadau canlynol:**

3. Ar gyfer ceisiadau ar gyfer pathogenau a chludyddion anifeiliaid a fydd yn glanio yn Lloegr neu'r Alban ac ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid a fydd yn glanio yng Nghymru neu Loegr:
   Animal and Plant Health Agency
   Centre for International Trade - Carlisle
   Eden Bridge House
   Lowther Street
   Carlisle
   Cumbria
   CA3 8DX
   Ffôn: 03000 200 301
   E-bost: Imports@apha.gov.uk
4. Ar gyfer ceisiadau ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid a fydd yn glanio yn yr Alban:
   Scottish Government
   Agriculture and Rural Economy Directorate
   Animal Health and Welfare Division
   P Spur
   Saughton House
   Broomhouse Drive
   Edinburgh
   EH11 3XD
   Ffôn: 0300 244 9874
   E-bost: animal.health@gov.Scot
5. Ar gyfer ceisiadau ar gyfer pathogenau neu gludyddion anifeiliaid a fydd yn glanio yng Nghymru:
   Clefydau Anifeiliaid Egsotig
   Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
   Llywodraeth Cymru
   Parc Cathays
   Caerdydd
   CF10 3NQ
   Ffôn: 0300 060 4400
   E-bost: animaldiseaseslivestock@gov.wales

OGL

© Hawlfraint y Goron 2026

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu anfonwch neges e-bost i PSI@nationalarchives.gov.uk

Diogelu Data:
I gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn trin data personol ewch i www.gov.uk a chwiliwch am Siarter Gwybodaeth Bersonol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.